**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Atodiad B

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref JMEWL/1464/22

Helen Morgan-Rees
Cyfarwyddwr Addysg
Cyngor Abertawe

18 Mai 2022

Annwyl Helen

Diolch i chi am gyflwyno eich Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft i mi ei hystyried.

Rwy'n gwerthfawrogi i'r gwaith hwn ddigwydd yn ystod pandemig byd-eang. Er y diwygiwyd y Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg fel bod y cylch cynllunio a gweithredu CSCA yn cychwyn flwyddyn yn hwyrach, rwy'n deall yn iawn ei bod hi'n parhau i fod yn gyfnod heriol i awdurdodau lleol.

Hoffwn ddiolch i chi am eich cydweithrediad parod ar y CSCA, nid yn unig yn ystod y cyfnod diweddar hwn, ond ers cyhoeddi ein strategaeth hirdymor ar gyfer y Gymraeg, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr nôl yn 2017. Am y tro cyntaf, gosodwyd targed uchelgeisiol i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050 ac mae'r neges syml a chlir hynny wedi gwreiddio. Arweiniodd hyn at adolygiad o'r cynlluniau strategol, gydag argymhelliad i ddiwygio'r rheoliadau fel eu bod yn cyd-fynd ac yn cefnogi uchelgais Cymraeg 2050. Gwnaed Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019") yn dilyn hynny.

Ymysg y prif newidiadau a welwyd oedd y penderfyniad i ymestyn y cylch cynllunio CSCA i ddeng mlynedd i gyd-fynd gyda'r garreg milltir yn Cymraeg 2050 o gael 30% o ddysgwyr yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031. Cynllunio er mwyn sbarduno twf oedd y neges glir. Cyflwynwyd methodoleg i esbonio sut y cyfrifwyd y targedau unigol hynny.

**Rwy'n hapus i weld bod eich CSCA drafft yn nodi'ch ymrwymiad clir i wireddu eich targed 10 mlynedd, gan gynyddu'r canran o ddysgwyr blwyddyn 1 a addysgir yn y Gymraeg o 15.4% (2019/20) i rhwng 23% a 27% erbyn diwedd y Cynllun.**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae hyn yn ddatganiad pwysig sy'n cadarnhau eich ymrwymiad i'n gweledigaeth genedlaethol o filiwn o siaradwyr erbyn 2050, yn ogystal â'ch cyfraniad at nod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o '(G)ymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

Mae disgwyl i'ch Cynllun amlinellu sut y bwriedir cyrraedd y targed hwn ac mae Rheoliadau 2019 yn cyflwyno cyfres o ddatganiadau a thargedau y mae disgwyl i chi eu cynnwys. Rwyf wedi asesu eich Cynllun drafft yn unol â'r gofynion hyn, ynghyd ag adborth i'ch CSCA a goladwyd ar draws y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg.

I gyrraedd eich targed 10 mlynedd, rydych yn gwneud nifer o ymrwymiadau cadarnhaol sydd i'w croesawu. Fodd bynnag, rwyf o'r farn bod yna le i chi gryfhau eich Cynllun. Mae adran 85(5)(a) o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)  2013 ("Ddeddf 2013") yn gofyn i mi ymgynghori gyda chi ar unrhyw addasiadau rwyf yn ei ystyried yn briodol cyn cymeradwyo eich Cynllun.

Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn amlinellu fesul deilliant y materion yr hoffwn ichi roi sylw iddynt. Anogaf i chi ystyried y sylwadau yn ofalus a chymryd camau i addasu eich Cynllun drafft.

Rwy'n deall y bydd angen amser arnoch i ystyried y sylwadau ac i weithredu unrhyw brosesau cymeradwyo mewnol. Gydag hynny mewn ystyriaeth, rwy'n gofyn i chi anfon eich Cynllun diwygiedig ataf erbyn **24 Mehefin, 2022**. Os bydd eich cynllun diwygiedig yn mynd i'r afael â'r materion a amlinellir yn y llythyr hwn, yna byddaf yn ystyried ei gymeradwyo.

Pan fyddaf wedi gwneud penderfyniad i gymeradwyo eich Cynllun, hoffwn i chi droi eich sylw at y gweithredu. At bwrpasau monitro cynnydd, dymunaf weld cynllun gweithredu ar gyfer y 5 mlynedd gyntaf yn cael ei lunio erbyn **diwedd tymor yr Hydref**. Caiff hyn ei fonitro'n flynyddol ar ffurf adroddiad cynnydd.

Rwyf am eich sicrhau y bydd fy swyddogion yn darparu unrhyw gymorth, cyngor neu arweiniad angenrheidiol yn ystod y cyfnod hwn. Bydd eich swyddog lleol mewn cyswllt ymhen rhai diwrnodau i drefnu sgwrs.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

| **Rhif/ canran y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg 2019/20** | **390/ 15.4%** | |
|---|---|---|
| **Targed 2030/31** | **Ystod Isaf**<br>**590/ 23%** | **Ystod Uwch**<br>**695/ 27%** |
| **Deilliannau** | **Adborth** | |
| **Eich Gweledigaeth** | Rydych yn gwneud ymrwymiad clir i'ch targed 10 mlynedd sydd i'w groesawu.<br><br>Mae'n amlwg eich bod wedi ystyried y data sydd ar gael i chi ac wedi ymgynghori ag ysgolion a phartneriaid lleol wrth baratoi eich Cynllun.<br><br>Mae'r wybodaeth ategol a ddarperir fel atodiad i'r Cynllun yn darparu gwybodaeth defnyddiol a phwysig, er ble y mae yna wybodaeth ychwanegol ar gael i gefnogi'r camau gweithredu yn eich Cynllun, dylech gyfeirio ato ym mhrif corff eich Cynllun.<br><br>Rwy'n falch o weld bod eich Cynllun wedi'i gryfhau yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Pwrpas yr adborth hwn yw i fod yn adeiladol a chynnig cyfle i chi gryfhau elfennau o'ch CSCA yn hytrach na newid eich gweledigaeth i gyrraedd eich targedau 10 mlynedd. | |
| **Deilliant 1:** Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | Mae angen i ymrwymiadau a wneir o dan y deilliant hwn gael eu hategu gan wybodaeth/data sy'n nodi eich darpariaeth gofal plant a'r blynyddoedd cynnar presennol. Mae hyn wedi'i gynnwys yn eich atodiad cefndir ond heb groes-gyfeirio, y mae'r cyd-destun defnyddiol hwn yn cael ei golli.<br><br>Rwy'n llwyr cefnogi eich ymrwymiad i sicrhau bod pob ysgol gynradd Cyfrwng Cymraeg yn cael ei chefnogi gan Gylch Meithrin a Ti a Fi, a'r targedau yr ydych wedi'u rhoi i chi'ch hun i sicrhau bod y darpariaethau hynny ar gael. Byddai mwy o fanylion ynghylch sut y byddwch yn ffurfioli'r berthynas waith honno â Mudiad Meithrin ac eraill dros y blynyddoedd nesaf i gyflawni'r targedau hyn yn ddefnyddiol. Cyfeirir at hyn yng Nghanlyniad 2, ond mae angen ei chynnwys yma. Gellid cyfeirio at sefydlu is-grŵp blynyddoedd cynnar neu grŵp gorchwyl a gorffen i fonitro cynnydd yn y maes hwn. | |

| | |
|---|---|
| | Ar hyn o bryd mae 1 o'ch lleoliadau Dechrau'n Deg yn un cyfrwng Cymraeg. A ydych mewn sefyllfa i gryfhau eich ymrwymiad i 'archwilio cyfleoedd ar gyfer mwy o leoliadau Cymraeg' drwy roi targed ac amserlen fanylach i chi'ch hun o fewn y 5 mlynedd cyntaf? Byddwch yn ymwybodol o'r cyhoeddiad diweddar am ehangu'r rhaglen Dechrau'n Deg yng Nghymru, gyda phwyslais arbennig ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd disgwyl i chi gynnwys manylion am sut rydych wedi ymgorffori cynlluniau ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, i gynnwys pob plentyn 2 flwydd oed, drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg o fewn y CSCA.<br><br>Croesawaf eich ymrwymiad i gynnal adolygiad llawn o broses derbyn/mynediad yr awdurdod yn ogystal â chomisiynu ymchwil i ddeall yn well pam nad yw grwpiau a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli yn teimlo bod addysg cyfrwng Cymraeg yn opsiwn. O ystyried pwysigrwydd y gwaith hwn, a allech ddarparu amserlen ar gyfer pryd y bydd y gwaith hwn yn digwydd? Awgrymaf o fewn blwyddyn gyntaf y Cynllun.<br><br>Mae'r ymrwymiadau a wneir o dan y canlyniad hwn i'w croesawi. Fodd bynnag, o ystyried eich pwyslais ar lenwi lleoedd gweigion mae angen iddynt gael eu tynhau gan dargedau meintiol ac ymrwymiad i gyflawni o fewn blynyddoedd cyntaf y Cynllun. |
| **Deilliant 2:** Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | Croesewir yr ymrwymiad i sefydlu 3 darpariaeth cynradd ychwanegol. Oes mwy o wybodaeth i'w rhannu ynghylch natur y ddarpariaeth? A yw'n golygu ehangu darpariaeth mewn ysgolion cynradd sydd eisoes wedi'u sefydlu neu ydych chi'n ystyried sefydlu ysgolion newydd? Hoffwn weld hyn yn cael ei hegluro yn y cynllun.<br><br>Nodaf fod yr ymrwymiad ar gyfer y 3 ddarpariaeth ychwanegol yn cael ei wneud tuag at ddiwedd y degawd. A allech egluro yn eich cynllun y rhesymau pam nad yw hyn yn gallu digwydd yn gynt? Yw'r datblygiadau yn ddibynnol ar gytundeb Cynllun Datblygu Lleol neu gyfyngiadau cyllid cyfalaf?<br><br>I'w nodi, mae angen i chi newid y cyfeiriadau at Rhaglen Ysgolion a Cholegau 21 Ganrif i Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. |
| **Deilliant 3:** Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall | Mae eich data yn dangos bod cyfraddau trosglwyddo dysgwyr o un gyfnod allweddol i'r llall yn dda, er rydych wedi adnabod ac yn bwriadu monitro'r cynnydd mewn dysgwyr sydd yn trosglwyddo o ysgolion cyfrwng Cymraeg i ysgolion cyfrwng Saesneg, cyfradd sydd wedi cynyddu yn ystod Covid-19. |

| | |
|---|---|
| | Rydych yn ymrwymo i ddatblygu ymhellach eich darpariaeth trochi hwyr yn dilyn cais llwyddiannus gan Lywodraeth Cymru. Oes unrhyw beth i'w diweddaru yn dilyn y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2021/22? Ee unrhyw ganfyddiadau o'r ymchwil a wnaed y dylid ei gynnwys yn y cynllun hwn? Byddwch wedi clywed erbyn hyn bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhad yn y cyllid i gefnogi darpariaeth trochi hwyr. Bydd y cylch ymgeisio yn agor cyn hir.<br><br>Oes modd i chi ehangu ar yr hyn a olygir wrth 'Mynd ymlaen â chynlluniau strategol i gynyddu gallu parhaol darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg?<br><br>Gyda'ch bwriad i lenwi llefydd gweigion ac ehangu'r ddarpariaeth gynradd, ydych chi'n hyderus bod digon o gapasiti yn y sector uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddiwallu'r angen? Hoffwn weld hynny'n cael ei nodi yn y cynllun. |
| **Deilliant 4:** Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg | Mae'r twf bach ond sefydlog yn y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymhwyster Cymraeg TGAU fel pwnc yn galonogol. Byddai'n dda gallu cael dadansoddiad o'r pynciau eraill a astudir trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer safon Uwch.<br><br>Rwy'n nodi eich targed i gynyddu'r % o ddysgwyr sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg o 12% i 15%.<br><br>Ydych chi yn ymwybodol o E-sgol ac wedi ystyried manteision y rhaglen hwn i annog mwy o ddysgwyr barhau i astudio a chael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg? Os ydych yn gweld hyn fel cyfle i gryfhau eich cynnig yn eich ysgolion uwchradd, nodwch hynny yn eich cynllun.<br><br>Cyfeirir at eich bwriad i gefnogi dysgwyr yn eich ysgolion Saesneg i gynyddu eu darpariaeth o'r Gymraeg. Mae fframwaith dysgu Cymraeg yn cael ei ddatblygu i gefnogi ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg fel rhan o baratoadau Cwricwlwm i Gymru. Mae'r gwaith hwn yn ategu'r trefniadau a gyhoeddwyd fis Rhagfyr 2021 sy'n cyflwyno dull newydd o gategoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth o'r Gymraeg. Pwysleisir ehangu profiadau dysgu Cymraeg ar draws y sector addysg, a hynny o fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae hyn yn berthnasol i'r deilliant hwn ac i ddeilliant 5. |
| **Deilliant 5:** Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol | Croesewir eich targed i gael pob ysgol o fewn y sir i gyrraedd gwobr arian Cymraeg Campus (ar gyfer y sector cyfrwng Saesneg) a'r wobr aur Siarter Iaith (ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg) erbyn diwedd y cynllun.<br><br>I gefnogi'ch gwaith mapio o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r ysgol gyda'r partneriaid a rhestrir, hoffwn weld mwy o sylw yn cael ei roi i'r gwaith a wnaed gan eich ysgolion i sicrhau bod gweithgareddau i gefnogi defnydd anffurfiol dysgwyr o'r Gymraeg o fewn y diwrnod ysgol yn cael ei gofnodi. Byddai ymrwymiad i sicrhau bod |

| | |
|---|---|
| | gweithgareddau y Siarter Iaith a Chymraeg Campus, ymysg eraill, yn cael eu cynnwys mewn Cynlluniau Datblygu Ysgolion yn fan cychwyn da.<br><br>Mae cyfle yma, fodd bynnag, i ehangu ar y gwaith hwn drwy weithio gyda'ch ysgolion (Cymraeg a Saesneg) i ganfod faint o amser sy'n cael ei neilltuo o fewn y diwrnod ysgol i ddefnyddio'r Gymraeg. Dylech ddefnyddio’r data o’ch awdit sgiliau ieithyddol y gweithlu i adnabod ysgolion cyfrwng Saesneg gyda’r potensial a’r awydd i gryfhau’r amser cyswllt y mae eu dysgwyr yn ei gael yn y Gymraeg.<br><br>Byddai'r gwaith hwn yn bwydo i mewn i'r gwaith paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, lle mae pwyslais ar gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â'ch helpu i weithredu'r trefniadau newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Erbyn hyn, mae mwy o bwyslais ar ehangu cyfleoedd i bob dysgwr, mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, Saesneg neu ddwy iaith, gynyddu eu cysylltiad â'r Gymraeg, boed hynny drwy ddysgu yn yr ystafell ddosbarth neu drwy ddysgu y tu allan i'r dosbarth.<br><br>Fel rhan o'ch gwaith mapio , byddai'n fuddiol ystyried sut mae cyfleoedd a ddarperir drwy'r Fenter iaith, yr Urdd, Consortia yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr (o ran caffael, hyder ac ymwybyddiaeth).<br><br>Bydd ymgymryd â'r gwaith hwn yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun yn darparu gwaelodlin gwerthfawr i bennu targedau ar gyfer ymyriadau yn y dyfodol.<br><br>Croesewir y bwriad i sefydlu Gwobrau Shwmae, sy’n cynnig cyfle gwych i ddathlu llwyddiannau.<br><br>Mae angen tynhau unrhyw gamau gweithredu sy'n ymwneud ag ymgysylltu â rhanddeiliaid neu ymchwil a fwriedir i ddeall profiad dysgwyr o ddysgu Cymraeg, gydag amserlenni a thargedau meintiol. |
| **Deilliant 6:**<br>Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r | Ble ydych chi o ran yr asesiad o digonolrwydd y ddarpariaeth ADY ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg y cyfeirir ato yn eich cynllun? Os oes data neu gamau gweithredu penodol sy'n berthnasol i'r CSCA, dylech eu cynnwys yn eich cynllun.<br><br>Mae'r ymrwymiad i ddadansoddi'r achosion sy'n dylanwadu ar symud o gyfrwng y Gymraeg i'r Saesneg yn y sector cynradd yn galonogol. Byddai gennyf ddiddordeb yng nghanlyniad y gwaith hwn. Byddai'n well cynnwys amserlen ar gyfer pryd y mae'r gwaith hwn yn debygol o ddigwydd.<br><br>Sut y penderfynir ar faint a chapasiti gweithlu ADY Cyfrwng Cymraeg? |

| | |
|---|---|
| Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 | Pa strwythurau sydd ar waith i gefnogi a chydlynu camau gweithredu sydd â'r nod o gyflawni'r Canlyniad hwn? – ee gweithgor/is-grŵp. |
| **Deilliant 7:** Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg | Rydych wedi gwneud defnydd da o ddata SWAC i ddadansoddi hyfedredd iaith Gymraeg eich gweithlu addysgu. Mae'n nodi bod gan 237 o athrawon a staff cymorth mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sgiliau iaith Gymraeg uwch neu eu bod yn fedrus yn y Gymraeg. Er mai dim ond % fach o'r gweithlu cyffredinol yn mae hyn yn ei gynrychioli, byddai'n dda gweld gweithred yn canolbwyntio ar wella hyder y gweithlu sy'n gallu addysgu yn Gymraeg ond sydd ddim yn gwneud hynny ar hyn o bryd. Mae potensial i chi gysylltu hyn gyda'r ymyraethau dan Deilliant 5.<br><br>Mae'r camau gweithredu sy'n weddill wedi'u targedu'n dda, er y byddai nodi amserlen gliriach, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw archwiliadau neu ymarferion mapio a ragwelir, yn ddefnyddiol. Dylai unrhyw waith o'r fath cael ei flaenoriaethu i gychwyn cyfnod gweithredu'r cynllun.<br><br>Byddai mwy o fanylion ynghylch sut rydych wedi cyfrifo eich anghenion gweithlu cyfrwng Cymraeg i'r dyfodol (40 o staff addysgu a 40 o staff cymorth) yn cryfhau'r canlyniad hwn ymhellach.<br><br>Er mwyn cyflawni'r targedau ar gyfer cynyddu nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg, mae angen dull cydweithredol i gynllunio ar gyfer ein anghenion gweithlu. Gofynnaf i chi weithio gyda ni a rhanddeiliaid perthnasol eraill i:<br>• gynnal dadansoddiad rheolaidd o'r holl ffynonellau data er mwyn deall tueddiadau yn y galw am athrawon cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn gofyn am ragamcanu cyfraddau pontio blynyddol dysgwyr o addysg gynradd i addysg uwchradd ac edrych ar dueddiadau o ran nifer yr athrawon sy'n symud i rolau arwain, symud ysgolion neu adael / ymddeol o'r proffesiwn, er enghraifft.<br><br>• Yn seiliedig ar y dadansoddiad data o sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu, hoffem i chi osod targedau ar gyfer cynyddu cyfran eich gweithlu sydd â sgiliau iaith ar lefel sylfaen, ac ar lefel ganolradd neu uwch ac adrodd ar y rhain fel rhan o'ch gwaith monitro blynyddol y CSCA. Bydd hyn yn ein helpu i gynllunio darpariaeth cyrsiau'r Cynllun Sabothol ac yn gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu ystod o gyrsiau i alluogi ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn unol â'r safonau proffesiynol |